

Christian Friedrich, The Stone That the Builder Rejected, 2008
DV wedi ei drawscodio i ffeil ddigidol, Lliw, Sain
Hyd: 10' 24"

JX Williams, Untitled (Bull Chain), 2018
Gosodiad llawr cyfrwng cymysg
Dimensiynau amrywiol

Isa Genzken, X-Ray (1989)
Ffotograff du a gwyn, 80.5 x 67.5 cm
Gyda diolch i'r artist a Sig Wilhelm Otto Nacht

Cathy Wilkes, Untitled, 2011
Aradr, manecwin bachgen, manecwin yn penlinio, manecwin yn sefyll, cerflun sylfaen tap a choncrid, rhannau cyffredinol (bowlenni, cwningod tegan, darnau clai, cribin) oddeutu 430 x 390 x 170 cm

Wojciech Bąkowski, Analysis of Emotions and Vexations 2, 2016
Hyd: 10'

KHISHVI, 1995 - 2018, Cyfrwng Cymysg

Wojciech Bąkowski, Dry Standpipe, 2012
Hyd:12' 08"

Torsten Slama, Kay Fisker, C.F. Möller, Paul Stegmann; Universität Aarhus ab 1933
Llun pensil ar bapur (liw, 29.7 x 21.0 cm
Gyda diolch i'r artist a Sig. Wilhelm Otto Nacht

Dani ReStack, Gwaith Cyfrwng Cymysg ar Bapur, 2013 – 2015
Dimensiynau amrywiol

Tolia Astakhishvili, WHICH BITCH IS A WITCH, 2000
Fideo
Hyd: 2' 44"

A SLIGHT ACHE

TOLIA ASTAKHISHVILI, WOJCIECH BĄKOWSKI, CHRISTIAN FRIEDRICH, ISA GENZKEN, KHISHVI, DANI RESTACK, TORSTEN SLAMA, CATHY WILKES A JX WILLIAMS

Arddangosfa wedi'i threfnu gan James Richards

CHAPTER

Chapter
Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE, UK
+44 (0)29 2031 1050
visual.arts@chapter.org
www.chapter.org

/chaptergallery

Yn ei waith fideo ei hun, mae James yn cyfuno ffynonellau amrywiol o sain a fideo sydd eisoes yn bodoli i gyfleu cysylltiadau a chydberthnasau newydd. Caiff y syniad o greu arddangosfa ei archwilio yma, fel rhyw fath o ludwaith neu gyfansoddiad sy'n dod â gweithiau ynghyd mewn ffordd reddfol a chydgysylltiol, i greu amgylchedd gwefredig.

Mae A Slight Ache yn canolbwyntio ar waith sy'n defnyddio deunyddiau sy'n dod o fywyd bob dydd, ond sydd â dwyster emosiynol o'r galon ac awgrymiadau o ddefod neu berfformiad. Maen nhw'n ymwneud â'r corff, yn amlygu ac yn ymdoddi o fanion bywyd bob dydd, i ddisgrifio ymdeimlad o ludwaith fel ffordd o feddwl am y byd. Yma, mae'r ffurf dynol yn rhywbeth tameidiog, sy'n newid ac yn rhyngweithio â'i amgylchedd yn barhaus.

Mae arlunio'n rhan blaenllaw o'r sioe. Yn ysgrifflyd ac yn gain, mae'r gweithiau ar bapur hyn gan KHISHVI, Dani ReStak a Torsten Slama yn dod ag ymdeimlad o uniongyrchedd emosiynol a dyhead. Yng ngwaith Cathy Wilkes a JX Williams, caiff y casgliadau o gerflunwaith wedi'u gwneud o ddeunyddiau domestig a ganfuwyd eu troi yn rhywbeth dramatig, erotig ac angheuol. Mae gwrthrychau cyfarwydd yn awgrymu naratif - am y ffigurau maen nhw'n eu dwyn i feddwl a thrwy'r marciau sydd arnynt.

Drwy gydol y sioe, mae ffotograffiaeth a fideo yn dod ag elfennau o berfformiad, trawsffurfiad a iaith. Mae Wojciech Bąkowski yn adrodd dros animeiddiadau stop-symud a dolenni sain hudolus, ac yng ngwaith Christian Friedrich datgelir perfformiad lle mae'r artist wedi gwahodd dieithryn diniwed i'w stiwidio ar ôl cysylltu ag ef drwy hysbyseb personol, ac mae'n ei drochi mewn senograffeg golau strôb. Yng ngwaith fideo Tolia Astakhishvili, mae hi'n addasu ac yn newid ei gwedd mewn modd amrwd wrth gyfarch y gynulleidfa, ac yng ngwaith Isa Genzken mae'r artist yn cyflwyno un llun o'i phen ar ffurf pelydr-x.

Mae grŵp amrywiol o artistiaid yn gyfrifol am waith A Slight Ache, ac maent yn dod o wahanol genedlaethau a lleoliadau ac wedi'u gosod mewn ffordd sy'n ffurfio naratif. Mae'r gwaith yn gynnil ac yn gyfan ond, ar draws cwmpas cyffredinol y sioe, caiff llun ei ffurfio ym meddwl y gwyliwr - sy'n awgrymu bod creu celf yn rhywbeth preifat, byrbwyll a defosiynol.

YNGLŶN Â'R ARTISTIAID

Mae **KISHVI** / Tolia Astakhishvili (ganwyd yn 1974, Tbilisi, Georgia) yn byw ac yn gweithio ym Merlin. Mae detholiad o'i harddangosiadau yn cynnwys: 'Drop Shadow', Petra Rinck Galerie, Düsseldorf (2018); 'Faultlines', Frontviews Temporary, Berlin a 'Hed', Klein Raum fur Aktuelles Nicht, Berlin (2017); 'Airhead / Lifejacket / Mugshot', Pafiliwn Milchof, Berlin (2016); 'Crash Blossom', Galerie Rolando Anselmi, Berlin, A'nachronics', Petra Rinck Galerie, Düsseldorf, 'Alms for the Birds', Oriel Cabinet, Llundain a 'Bloomberg New Contemporaries' (oll yn 2014); 'A Perfect Vacuum', Sonntag, Berlin (2013); 'Interior', MAP, Düsseldorf a 'Seams', Autocenter, Berlin (2012) 'Insular', Petra Rinck Galerie, Düsseldorf (2011); 'Born in Georgia', Amgueddfa Cobra, Amstelveen (2009).

Graddiodd **Wojciech Bąkowski** (ganwyd yn 1979, Gwlad Pwyl) o Academi Celfyddyd Gain Poznań, Gwlad Pwyl. Mae ei waith wedi'i arddangos (ymhlith eraill) yn Amgueddfa Newydd, Efrog Newydd, Schmela Haus, Kunstsammlung Nordhein-Westfalen, Dusseldorf, Amgueddfa Morsbroich, Leverkusen, ac Amgueddfa Celf Fodern, Warsaw. Yn 2015, derbyniodd y Wobr Fawreddog yng Ngŵyl Ffilmiau Byrion Ryngwladol Oberhausen, yr Almaen, a gynhaliwyd am yr 61ain tro. Mae ei ffilmiau wedi'u dangos mewn gwyliau ffilm yn Nhoronto, Fiena, Wrocław, Ann Arbour a thrwy ddangosiadau unigol yn yr Anthology Film Archives.

Mae detholiad o'i arddangosiadau yn cynnwys: 'Holiday Power Supply', SVIT, Prag; 'Hideout in the Corner of Level 6', Bureau, Efrog Newydd, 'Main Issues', Vosberg, Cwlen (oll yn 2016); 'Weak Moods Control', Stereo, Warsaw, 'There's a Pain Somewhere In The Room', Galeria Labirynt, Lublin, 'Realizing', Audio Visual Arts (AVA), Efrog Newydd (oll yn 2015) ac 'abc – art berlin contemporary', Berlin (2014).

Artist aml-ddisgyblaethol yw **Christian Friedrich** (ganwyd yn 1977, Freiburg, yr Almaen).

Mae ymdeimlad ansicr o berygl yn aml yn treiddio i'w waith gan fod rhywbeth hynod bersonol yn y fantol: sofraniaeth y corff dynol, er enghraifft, neu gydbwysedd grym mewn perthnasau agos. Mae bywiogrwydd cerfluniau, fideos a gosodwaith sain Friedrich yn deillio o'r diffygion, y gwendidau a'r methiannau sydd wrth sail bodolaeth dyn. Mae ei waith yn gwahodd y gwyliwr i sefydlu cysylltiadau affeithiol rhwng y gwaharddedig a'r cysegredig.

Mae ei arddangosiadau diweddar yn cynnwys 'Spectres of Want', Amgueddfa Gelf Fodern Cobra, Amstelveen; 'Skins', Goethe-Institut Niederlande, Amsterdam; 'On Something New / Dirt in a Hole', Grazer Kunstverein, a 'De Hallen', Haarlem.

Derbyniodd Christian Friedrich Enwebiad Prix de Rome (yn 2013), ac enillodd Wobr Celf Cobra yn 2017.

Graddiodd Dani (Leventhal) ReStack (ganwyd yn 1972, Columbus, Ohio, yr Unol Daleithiau) o Goleg Earlham, Richmond, Indiana (1994), a chwblhaodd MFA mewn Celfyddydau Stiwdio ym Mhrifysgol Illinois yn Chicago, Illinois (2003), ac MFA mewn Ffilm a Fideo yng Ngholeg Bard, Efrog Newydd (2009).

Mae detholiad o'i harddangosiadau yn cynnwys: 'Shameless Light', Gofod Prosiect Prince Street Leslie Lohman, Efrog Newydd (2018); 'Repeat Pressure Until', Oriel Angela Meleca, Columbus, Ohio, 'Stack for Carrington's Hyena', Oriel Iceberg, Wilson & Leventhal, Chicago, Illinois, 'Stack', Amgueddfa Gelf Columbus, Wilson & Leventhal, Columbus, Ohio, 'Pine Forest', Oriel Gaa, Provincetown, Massachussets (oll yn 2017); 'Carousel', Oriel Gaa, Provincetown, Massachussetts, 'Summertime', Oriel Gaa, Wellfleet, Massachussetts, 'Repeat Pressure Until', Ortega y Gassett, Brooklyn, Efrog Newydd, 'Myths of the Academy', Oriel Hopkins, Columbus, Ohio, 'Pobre Diablo Gallery', Quito, Ecwador (oll yn 2016).

Mae hi wedi sgrinio ffilmiau'n rhyngwladol, ac enwebwyd hi am Gymrodoriaeth Artistiaid yr Unol Daleithiau yn 2018, ac am wobr Anonymous Was a Woman, Efrog Newydd, yn 2017. Yn 2016, enillodd Gymrodoriaeth Cyngor Celfyddydau Columbus Fwyaf; Preswylfa Canolfan Gelf Headlands, Sir Marin, Califfornia; Nythfa Artistiaid Carrizozo, Carrizozo, Mecsico Newydd; Grant Celfyddydau a Dyniaethau Prifysgol Talaith Ohio am Arddangosfa neu Waith Stiwdio, Columbus, Ohio. Mae gwaith ReStack wedi'i gynnwys mewn llawer o gasgliadau, gan gynnwys Coleg Bard, Prifysgol Wladol Bowling Green, Ohio, Coleg Columbia, Chicago, Coleg Connecticut, Llundain Newydd, MoMA, Efrog Newydd, UCLA (Prifysgol Califfornia, Los Angeles) a Phrifysgol Yale, New Haven.

Artist cyfoes yw **Isa Genzken** (ganwyd yn 1948, Bad Oldesloe, yr Almaen) ac mae'n byw ac yn gweithio ym Merlin. Astudiodd Isa gelfyddyd gain, hanes celf ac athroniaeth yn Hambwrg, Berlin a Chwlen, cyn cwblhau ei hastudiaethau yn Kunstakademie Düsseldorf yn 1977.

Yn 2017, derbyniodd Isa wobr y Goslarer Kaiserring ('Modrwy'r Ymerawdwr') gan ddinas Goslar. Cynhaliwyd arddangosfa unigol gysylltiedig yn Mönchehaus Museum Goslar yn yr Almaen o fis Hydref 2017 tan fis Ionawr 2018.

Mae ei harddangosiadau dethol yn cynnwys: Amgueddfa Stedelijk yn Amsterdam (2015) a deithiodd i Martin-Gropius-Bau ym Merlin yn 2016; Oriel Whitechapel, Llundain (2009) a deithiodd i Amgueddfa Ludwig, Cwlen; Amgueddfa Abteiberg, Mönchengladbach, yr Almaen (2002) a deithiodd i Kunsthalle Zürich (2003); Cymdeithas y Dadeni ym Mhrifysgol Chicago (1992) a deithiodd i Portikus, Frankfurt; Palais des Beaux-Arts, Brwsel; Städtisches Galerie im Lenbachhaus, München (y ddau yn 1993); a Rheinisches Landesmuseum, Bonn, yr Almaen, 1988 a deithiodd i Kunstmuseum Winterthur, y Swistir; Amgueddfa Boijmans Van Beuningen, Rotterdam (y ddau yn 1989).

Mae lleoliadau eraill sydd wedi cynnal arddangosfeydd unigol pwysig yn cynnwys Tŷ Inverleith, Gardd Fotaneg Frenhinol Caeredin (2014); Museion, Bolzano, yr Eidal (2010); Canolfan Gelfyddydau Camden, Llundain; Galerie im Taxispalais, Innsbruck; Secession, Fiena (oll yn 2006); Amgueddfa Ludwig, Cwlen (2002); a Kunstverein Braunschweig, yr Almaen (2000). Cynhaliwyd ei harddangosfa unigol sefydliadol gyntaf yn 1978 yn y Kabinett für aktuelle Kunst yn Bremerhaven, yr Almaen.

Yn 2007, cynrychiolodd yr Almaen yn Biennale Celf Fenis, a gynhaliwyd am y 52ain tro y flwyddyn honno. Mae ei gwaith wedi bod yn flaenllaw mewn digwyddiadau dwyflynyddol rhyngwladol ac arddangosfeydd grŵp megis Biennale Fenis (2015, 2003, 1993, a 1982); Skulptur Projekte Münster (2007, 1997, a 1987); a Documenta (2002, 1992, a 1982).

Torsten Slama (ganwyd yn 1967, Schwarzach, Awstria). Mae detholiad o'i harddangosiadau yn cynnwys: 'Exhibition for Go-Getters', Oriel Focal Point, Southend-on-Sea, 'Komm und Sieh - Vorschläge für eine Sprach- und Schulreform', Kunstverein Bremerhaven (y ddau yn 2016); 'Le Souffleur - Schürmann trifft Ludwig', Ludwig Forum Aachen (2015); 'Torsten Slama: Le Reste Parfait', Marc Jancou, Genefa (2015); 'Exhibition for Sorcerers and Sodomites', Kimmerich, Berlin, 'The Stairs Turned Back Into Stairs', Algus Greenspon, Efrog Newydd (y ddau yn 2014); 'Entwürfe für die planetarische Modellkolonie Neutopia-Schessmanweil', Galerie Campana, Berlin (2010); P'erspectives 166', Amgueddfa Celf Gyfoes, Houston ac 'Ausstellung für die Zukunft', Galerie Vera Gliem, Köln (2009).

Mae **Cathy Wilkes** (ganwyd yn 1966, Dundonald, Belffast) yn byw ac yn gweithio yn Glasgow yn yr Alban, a graddiodd â BA o Ysgol Gelf Glasgow yn 1988, cyn cwblhau ei MFA ym Mhrifysgol Ulster, Belffast yn 1992.

Yn 2016, hi oedd y person cyntaf i gael Gwobr Maria Lassnig a bu iddi gyflwyno'r arddangosfa unigol fwyaf o'i gwaith yn MoMA PS1, Efrog Newydd (2017-2018).

Mae detholiad o'i harddangosiadau yn cynnwys: The Modern Institute, Glasgow (2016); Tate Lerpwl, cyn teithio i LENTOS Kunstmuseum, Linz ac Amgueddfa Abteiberg, Möenchengladbach (2015 - 2016); Tramway, Glasgow (2014). Enwebwyd Maria am Wobr Turner yn 2008. Cynrychiolodd yr Alban yn Biennale Celf Fenis (2005) fel rhan o'r arddangosfa 'Selective Memory', ac ymddangosodd ei gwaith yn 'The Encyclopaedic Palace' oedd yn rhan o Biennale Celf Fenis (2013).

Yn 2019, bydd hi'n cynrychioli Prydain Fawr yn Biennale Celf Fenis a gynhelir am y 58fed tro.

Ffugenw **AA Bronson** a James Richards yw JX Williams